



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Cynllun Gwella Blynyddol 2019-2020

Beth wnaethom yn 2019-2020 a beth rydym yn cynllunio gwneud yn 2021-2022

CODI YMWHYBYDDIAETH | LLEIHAU RISG

Cynnwys

Rhagair.....	4
Cyflwyniad	5
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	6
Ein Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.....	7
Amdanom Ni	8
Beth wnaethom yn 2019-2020 a sut wnaethom ni berfformio	10
Cymariaethau 2019-2020 â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill	12
Camau Blaenoriaeth yn 2019-2020.....	14
Cyllid a Chaffael.....	30
Ein Perfformiad Archwilio.....	31
Beth rydyn ni'n cynllunio gwneud yn 2021-2022.....	32
Sut wnaethom ddatblygu ein cynllun ar gyfer 2021-2022	33
Ein Themâu Strategol	34
Yr Iaith Gymraeg a Lleiswch eich barn	44
Gwirfoddolwyr	45

Rhagair



Huw Jakeway QFSM

Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



Cynghorydd Tudor Davies MBE

Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub
De Cymru

Croeso i'n Cynllun Gwella blynyddol fydd yn rhoi manylion o rhai o'r pethau a gyflawnwyd gennym yn 2019-2020. Byddwn hefyd yn nodi ein themâu strategol a'n hamcanion awgrymedig ar gyfer 2021-2022 ac yn egluro sut fyddwn yn darparu ar y themâu a'r amcanion hyn a mesur ein cynnydd tuag at wella.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon i adlewyrchu ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol 1^{af} o Ebrill 2019 i'r 31^{ain} o Fawrth 2020. Ar Fawrth y 23^{ain} 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU "gyfnod clo" cenedlaethol mewn ymateb i bandemig byd-eang Covid-19. Wrth i ni gyhoeddi'r ddogfen hon, eisoes mae rhywfaint o'r cyfyngiadau clo wedi llacio ychydig, ond mae eraill yn parhau mewn lle a byddant yn dal i fod am y dyfodol rhagweladwy.

Yn ystod y cyfnod clo, fe wnaethom barhau i ddarparu ein gwasanaethau rhengflaen i'n cymunedau ac roedd modd i ni ddatblygu dulliau newydd ac arloesol o gyflenwi rhai o'n gwasanaethau ataliol fel archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref.

Mae dilyn y rheol pellhau cymdeithasol, hylendid dwylo ac ufuddhau i holl ganllawiau Llywodraeth Cymru o'r pwys mwyaf. Mi allwn barhau ar y llwybr cadarnhaol hwn tuag at adferiad, ond dim ond os byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i ddiogelu pawb. Mae'n anrffod fydd y pandemig yn effeithio ar ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a bydd rhai o'r gweithgareddau a gynlluniwyd gennym yn cael eu gohirio, yn darfod neu bydd angen cael eu cyflawni mewn modd gwahanol o ganlyniad i hyn. Yn dilyn hyn, gall hwn gael effaith ar ein hamcanion awgrymedig ar gyfer y flwyddyn nesaf ac rydym yn cydnabod efallai bydd rhaid i bethau newid yn dibynnu ar unrhyw gyfyngiadau lleol neu genedlaethol sydd mewn grym ar unrhyw adeg arbennig.

Fodd bynnag, gyda hwn mewn golwg, byddwn yn croesawu eich safbwyntiau a'ch profiadau wrth lunio ffordd newydd ymlaen i ni fel Gwasanaeth. Mae eich safbwyntiau ar sut allwn gyflawni ein nodau yn hynod bwysig i'n llwyddiant ni.

Ar ddiwedd y ddogfen hon, rydym yn gobeithio y byddwch yn dweud wrthym beth rydych yn meddwl am ein hamcanion awgrymedig drwy gwblhau holiadur neu dim ond wrth gysylltu â ni.

Cyflwyniad

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf y DU, yn cwmpasu 10 Awdurdod Unedol a phoblogaeth o 1.5 miliwn. Rydym yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr a gyfansoddir o gymunedau gwledig, arfordirol a threfol.

Mae gennym sawl fframwaith cyfreithiol sy'n ein darparu â rheolau a chyfarwyddwyd ar ba wasanaethau y mae'n rhaid i ni ddarparu. Mae'r fframweithiau cyfreithiol hyn yn cynnwys Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLI CD), Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2016, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn gofyn i ni osod a chyhoeddi amcanion gwella fel "awdurdod gwella Cymreig" dynodedig. Byddwn yn dangos lle dangosodd ein cynlluniau welliant ar draws y saith agwedd, sef:

- effeithiolrwydd strategol
- ansawdd gwasanaethau
- argaeledd gwasanaethau
- tegwch
- cynaliadwyedd
- effeithlonrwydd
- arloesedd

Mae DLI CD yn cynnwys saith nod ac amcan, o dan ei "egwyddor datblygiad cynaliadwy", i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau'r dyfodol pobl yng Nghymru. Cynhwysir GTADC, fel corff cyhoeddus, o dan y Ddeddf a rhaid iddo osod a chyhoeddi amcanion "llesiant" a gynlluniwyd i eithafu ein cyfraniad i gyflawni nodau lles y Ddeddf a chymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r amcanion hynny. Bob blwyddyn, byddwn yn cyhoeddi datganiad ac adroddiad blynyddol ar gynnydd ac unrhyw ymateb i argymhellion a roddwyd i ni gan Gomisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Cymru.

Mae'r Deddfau'n rhoi dyletswydd arnom i gadw pobl, cymunedau, busnesau ag amgylchedd De Cymru'n ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill. Rydym yn gwneud hyn mor effeithiol ac effeithlon ag sy'n bosib wrth anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ac i ddatblygu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion uniongyrchol ein holl gymunedau a'r Gwasanaeth, wrth ddyrchafu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Saith Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Cymru
gydnerth



Cymru o
gymunedau
cydlynus



Cymru â
diwylliant
bywiog
lle mae'r
Gymraeg yn
ffynnu



Cymru
lewyrchus



Cymru
iachach



Cymru fwy
cyfartal



Cymru sy'n
gyfrifol ar lefel
fyd-eang

Egwyddor datblygiad cynaliadwy DLI CD yw: **“Dylai pob Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n chwilio i sicrhau bydd gofynion y presennol yn cael eu cwrdd heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy”**

Mae DLI CD hefyd yn adnabod y pum ffordd ganlynol o weithio sy'n rhaid i ni ystyried a gweithredu yn unol â hyn wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.

- Pwysoli anghenion byrdymor ag anghenion **hirdymor**
- Rhoi adnoddau tuag at **atal** problemau
- Defnyddio dull o **gyfannu**, yn gwrthbwysio anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- **Cydweithredu** ag eraill i helpu cwrdd ag amcanion llesiant
- **Cynnwys** eraill i adlewyrchu amrywiaeth ardal



Hirdymor



Atal



Cyfannu



Cydweithredu



Cynnwys

Ein Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus

Rydym yn parhau i weithio gyda'r naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) yn ein hardal. Mae gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus gyfrifoldeb i baratoi a chyhoeddi cynlluniau llesiant lleol ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol.

Rydym wedi ymroi i gwrdd â'n hymrwymiaidau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar bob adeg, byddwn yn ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd a sut gallwn fod yn aelodau effeithiol o'r naw BGC, yn cydweithredu a chymryd agwedd gyfannol at ddarparu gwasanaethau er mwyn helpu pobl i deimlo'n ddiogel ac iach yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Mae ein gwaith gyda'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn arddangos ein hymrwymiad at egwyddor datblygiad cynaliadwy DLI CD.


Pan wnaethom ddatblygu ein themâu ac amcanion strategol, fe wnaethom ystyried saith nod y Ddeddf a sicrhau ein bod yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio: - meddwl hirdymor, atal, cyfannu, cydweithredu a chynnwys.

Fe wnaethom adnabod nifer o gamau sy'n cyfrannu at gyflawni'r saith nod wrth ddiffinio ein saith thema ac amcan strategol ar gyfer 2020-2021 a thu hwnt. Byddwn yn monitro a mesur ein cynnydd tuag at yr amcanion hyn fel rhan o'n prosesau cyfredol.


Cliciwch ar yr eicon perthnasol ar gyfer cynllun ac amcanion lles y BGC ar gyfer eich ardal.



Amdanom ni



Yn 2019-2020, fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru:



Rydym yn darparu:

**ataliad,
diogelwch ac
ymateb**

24 awr y dydd
7 diwrnod yr wythnos
365 diwrnod y flwyddyn

90^C
y pen bob wythnos

Beth wnaethom yn 2019-2020 a sut wnaethom berfformio

Fel Gwasanaeth, mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso ein perfformiad i sicrhau ein bod yn perfformio mor effeithiol ag sy'n bosib. Yn rhannol, rydym yn gwneud hyn wrth osod targedau blynyddol i'n hunain yn erbyn Dangosyddion Strategol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cymharu ein perfformiad yn erbyn y Gwasanaethau Tân ac Achub Cymreig eraill a chymharu ein perfformiad yn erbyn Gwasanaethau Tân ac Achub eraill y DU yr ydym yn rhannu peth tebygrwyd â hwy. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth ar y cynnydd rydym yn gwneud yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol hyn.



Disgynnodd nifer y tanau ar draws ein rhanbarth, wedi'i ysgogi gan fentrau lleihau Tanau Glaswellt llwyddiannus.



Gwelodd 2019-2020 y nifer isaf o Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd gennym ers cychwynnodd y broses gofnodi cyfredol yn 2009-2010. Gostyngodd nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd difrifol a oedd yn gofyn am ddatglymu pobl o'u cerbydau eleni. Roedden ni'n fwy tebygol o fynychu digwyddiadau risg is.



Cynyddodd ein presenoldeb mewn Galwadau Fflug awtomatig mewn adeiladau eleni.




Cynyddodd nifer y galwadau Gwasanaeth Arbennig Arall* a fynychwyd eleni o ganlyniad uniongyrchol i ddigwyddiadau oedd yn gysylltiedig â Stormydd Ciara, Dennis a Jorge yn gynnar yn 2020. Sbardunodd y stormydd hyn gynnydd o 120% mewn digwyddiadau o Lifogydd a fynychwyd y llynedd.




Y prif ffactorau ynghylch y cynnydd mewn anafiadau oherwydd tanau eleni oedd tanau glaswellt bwriadol a thanau damweiniol a leolwyd o fewn y gegin. Roedd y cynnydd mewn marwolaethau o ganlyniad i danau bwriadol.


Allwedd




Cyfanswm nifer y Tanau a fynychwyd




Cyfanswm nifer y Galwadau Ffug a fynychwyd




Cyfanswm nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd




Cyfanswm nifer y Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill a fynychwyd




% y Tanau Mewn Anheddau a gynhwyswyd yn yr ystafell lle y tarddasant



Cyfanswm nifer y Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o Danau Damweiniol



Cyfanswm nifer y Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o Holl Danau




Cymariaethau 2019-2020 â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill


Rydym yn cymharu ein perfformiad yn erbyn y Gwasanaethau Tân ac Achub Cymreig eraill a'r Grŵp Teulu 4 (GT4). Ffurfiwyd y GT4 o 18 Gwasanaeth Tân ac Achub o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Maent yn debyg i ni yn seiliedig ar ffactorau megis poblogaeth, amddifadedd, proffiliau risg a nifer digwyddiadau.

	De Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Gogledd Cymru	GT4 Gwaethaf	GT4 Gorau
Cyfanswm nifer y tanau a fynychwyd	5,482	3,152	1,950	5,485	1,726
Cyfanswm nifer y galwadau ffug a fynychwyd	7,857	4,631	2,274	8,305	2,392
Cyfanswm nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd a fynychwyd	996	944	179	1,112	324
Cyfanswm nifer y galwadau gwasanaeth arbennig eraill a fynychwyd	2,569	4,484	469	9,347	1,016
Cyfanswm nifer y marwolaethau ac anafiadau sy'n deillio o holl danau	84	85	50	171	26
Cyfanswm nifer y marwolaethau ac anafiadau sy'n deillio o danau damweiniol	64	45	46	139	23
Canran y tanau mewn anheddau a gynhyswyd yn yr ystafell lle y tarddasant	84.2%	85.4%	88.5%	Nid Dangosydd Strategol a ddefnyddiwyd gan bawb o'r GT4 yw hwn	


Allwedd




Cyfanswm nifer y Tanau a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth




Cyfanswm nifer y Galwadau Fflug a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth




Cyfanswm nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth




Cyfanswm nifer y Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth




Cyfanswm nifer y Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o Holl Danau fesul 10,000 o'r boblogaeth



Cyfanswm nifer y Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o Danau Damweiniol fesul 10,000 o'r boblogaeth



% y Tanau Mewn Anheddau a gynhwyswyd yn yr ystafell lle y tarddasant



Roedd gennym saith Cam Blaenoriaeth yn 2019-2020. Dyma grynodeb o beth rydym wedi cyflawni

Cam Blaenoriaeth 1

Darparu ymateb effeithlon, effeithiol a pherthnasol i'n holl gymunedau

Fe wnaethom ddweud y byddwn:

- Yn gwella'r modd yr ydym yn ymateb i danau ac argyfyngau eraill
- Yn cael y bobl, offer, cerbydau a'r sgiliau cywir yn barod ar yr adeg gywir ac yn y man cywir
- Yn fwy parod i ddelio â digwyddiadau sydd ynghlwm ag adeiladau lle gall yr uchder gael effaith ddifrifol ar wacáu

Beth wnaethon ni

- Cydweithredu â nifer o bartneriaid h.y. Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Thaclo Tipio Cymru i ostwng tanau bwriadol
- Parhau i weithio â phartneriaid a gorsafoedd lleol wrth adnabod ac ymateb i ddigwyddiadau o gynnu tan bwriadol
- Cwblhawyd cyflwyno Offer Anadlu a setiau radio digidol cysylltiedig newydd
- Cefnogaeth barhaol i'n Tîm Cyflenwi Ar Alwad i sicrhau ein bod yn recriwtio ar gyfer gorsafoedd Ar Alwad
- Diweddarwyd 32 o becynnau Cyflwyniad Sgiliau Gweithredol (CSG)
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddŵr bellach yn cael ei ddarparu ar bob cwrs Llawn Amser ac Ar Alwad
- Crëwyd pob cwrs offer anadlu i'r Cyfleuster Hyfforddiant Tân Gwirioneddol, gan gynnwys cynlluniau gwersi a phroffiliau cwrs
- Crëwyd Gweithgor Safleoedd Tŵr i sicrhau bydd gan ein criwiau'r wybodaeth a'r hyfforddiant cywir i ddelio â digwyddiadau mewn adeiladau o'r fath
- Diweddarwyd y Weithdrefn Gweithredu Safonol i Safleoedd Tŵr a byddwn yn parhau i'w diwygio wrth i ni ddysgu mwy. Lle adnabyddir safle tŵr fel ei fod yn peri risg uwch i ddiffoddwyr tân, gwneir trefniadau ar gyfer cynnal ymweliadau ymgyfarwyddo
- Datblygwyd a gwerthuswyd proses archwilio gweithredol newydd. Bydd hyn yn sicrhau cywirdeb gwybodaeth gritigol yn galluogi dull mwy rhagweithiol o werthuso risgiau a adnabuwyd o fewn archwiliadau, yna rhannu a chywiro'r materion
- Diweddarwyd a chyhoeddwyd ein System Ddyletswydd Hyblyg gyda'r nod o gynyddu ymgysylltu a dealltwriaeth ar draws Gweithrediadau a Chyrrff Cynrychioliadol, i'w hadolygu bob yn dri mis

Cynhadledd Tân Gwylt - Caerdydd

Yn ystod haf 2019, profodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru effaith tanau gwylt ar garreg eu drws gyda thanau dinistriol ar draws cymoedd De Cymru. Roedd gwaddol y fath danau yn andwylol i gymunedau lleol, yr amgylchedd a chynefin bywyd gwylt. Mae'r digwyddiadau hyn hefyd yn peri risg sylweddol i'r criwiau tân a oedd yn mynychu.

Yn Nhachwedd 2019, fe wnaethom drefnu a chynnal cynhadledd yn Stadiwm y Principality a ddaeth â chynrychiolwyr byd eang i rannu safbwynt eang o sut gall rheolaeth tir effeithiol a chydlynus helpu lleihau bygythiad a chanlyniadau tanau gwylt.

“ Roedd y gynhadledd yn gyfle unigryw i ddysgu oddi wrth ein gilydd a darganfod ffyrdd newydd o ymateb i danau gwylt a'u hatal. ”

Pennaeth Gorsaf Craig Hope - Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru



Cam Blaenoriaeth 2

Gweithio gydag eraill i ddarparu addysg i'n holl gymunedau i atal niwed a diogelu rhag risg niwed

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Datblygu ymweliadau Diogelwch yn y Cartref i gynnwys mwy o gymorth i bobl
- Casglu gwybodaeth gan bobl a brofodd tân er mwyn atal tanau yn y dyfodol
- Sicrhau fod gan ddiffoddwyr tân wybodaeth hanfodol am adeiladau a safleoedd eraill ar gael iddynt pan maent eu hangen
- Gweithio gyda pherchnogion a meddianwyr adeiladau uchel i leihau tebygrwydd ac effaith tân

Beth wnaethon ni

- Datblygwyd Archwiliad Diogelwch rhag Tân yn y Cartref Estynedig (ADTCE) sydd nawr yn cipio manylion atgyfeiriadau manwl i helpu penderfynu os gosodwyd yr offer cywir i leihau risg yn y cartref
- Archwiliwyd hunan addysgu ac addaswyd addysgu diogelwch yn y cartref i gydweddu ein gwasanaeth a'n hadnoddau i anghenion yr aelwyd a'i risg ac i sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi ein cymunedau yn ystod pandemig Covid-19
- Cwblhawyd hyfforddiant ADTCE i Orsafoedd Tân Caerdydd a Bro Morgannwg
- Sefydlwyd prosiect i ddysgu gan bobl a brofodd dân yn y cartref ac rydym yn parhau i fonitro a gwerthuso ein canlyniadau
- Adnabuwyd pob adeilad ar draws De Cymru a osodwyd â system cladin methodig neu sy'n disgyn i'n Rhaglen Archwilio sy'n seiliedig ar Risg o ganlyniad i uchder. Darparwyd y wybodaeth hon i ddiffoddwyr tân i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'u lleoliad
- Cwblhawyd 1,347 Gwybodaeth Risg Safle Penodol (GRSP) i Adeiladau Preswyl Safleoedd Tŵr
- Archwiliwyd pob adeilad Safle Tŵr yn Ne Cymru. Rydym wedi cynnal archwiliad diogelwch tân llawn a chwblhau holiadur Cyngor Prif Swyddogion Tân Cenedlaethol (CPTC) i adnabod y math o system gladin sy'n gorchuddio haen allanol yr adeilad. Mae'r wybodaeth hon bellach ar ein cronfa ddata archwilio ac ar gael i'w gyfeirio ati i'r dyfodol
- Adnabuwyd materion diogelwch tân mewn adeiladau fflatiau tŵr a hysbyswyd person cyfrifol yr adeilad, gan ddarparu cynllun gwaith iddynt i'w gwblhau
- Ymgwymerwyd ag Archwiliadau Diogelwch rhag Tân yn y Cartref i breswylwyr adeiladau fflatiau tŵr yn Ne Cymru i ddarparu sicrwydd a chynghor ar ddiogelwch atal tanau a gwacáu
- Parhau i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'n hadnoddau wrth dargedu ein safleoedd risg uchel ac ymateb i dueddiadau a adnabuwyd fel bo'n briodol

- Aseiniodd yr adran DTF swyddogion ychwanegol i fynychu cyfarfodydd gyda'n partneriaid amrywiol
- Diwygiwyd ein Rhaglen Archwilio sy'n Seiliedig ar Risg (RhASR) i ddyrannu adnoddau priodol i barhau ein gweithgareddau lleihau risg
- Parhau i gasglu a rhannu gwybodaeth gyda Heddlu De Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a thimau iechyd meddwl o fewn y Cyd-Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae rhannu gwybodaeth hefyd wedi cychwyn gyda GTA Gogledd Cymru

Amgylchynu'r Dref

Un o'r mentrau newydd y bu'r Adran Diogelwch ar y Ffyrdd yn gweithio arni yn 2019 oedd Amgylchynu'r Dref - y digwyddiad diogelwch ar y ffyrdd mwyaf yng Nghymru yn 2019. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn 2019, un yng Nghasnewydd yn Hydref a'r ail yng Nghwmbrân yn Nhachwedd. Menter ar y cyd oedd hwn rhwng Heddlu Gwent a GTADC, yn gweithio'n agos gyda'n gilydd i gyflawni nod gyffredin o 'gadw ein ffyrdd yn ddiogel i bawb'. Gweithrediad ymatebol a rhagweithiol oedd hwn gyda'r holl addysgu ynghylch '[Y Pump Marwol](#)'.

“ Menter sy'n anelu at wella bywydau pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Chasnewydd yw Amgylchynu'r Dref. Mae gennym oll yr hawl i ddefnyddio'r ffyrdd yn ddiogel ac wrth weithio gyda'n gilydd fel partneriaid, gobeithiwn bydd ein negeseuon yn gwneud gwahaniaeth, yn gwneud Casnewydd yn le diogelach i bawb. ”

Heddwas Jason Williams
Heddlu Gwent



Cam Blaenoriaeth 3

Datblygu dulliau effeithlon ac effeithiol o ymgysylltu a chyfathrebu â'n holl gymunedau i'w cynnwys hwy yn sut rydym yn darparu ein gwasanaethau

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Adolygu sut mae Gorsafoedd Tân yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill o gyfathrebu i ymgysylltu â'u cymunedau lleol
- Datblygu a dyrchafu cyfathrebiadau ac ymgysylltu wrth ddefnyddio amrwyiaeth o gyfryngau yn fewnol ac yn allanol i'r Gwasanaeth
- Darparu digwyddiadau ymgysylltu Cymunedol drwy law ystod o weithgareddau

Beth wnaethon ni

- Cyflwynwyd mwy o dudalennau Facebook Gorsafoedd Tân i ymgysylltu'n well yn lleol â'n cymunedau gyda phwyslais ar leihau risg, recriwtio a hyrwyddo digwyddiadau codi arian a gweithgareddau cymunedol
- Sefydlwyd rhaglen hyfforddi i alluogi Gorsafoedd i reoli'u tudalennau eu hunain
- Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu ar gyfer recriwtio Llawn Amser yn Hydref 2019, yn ysgogi 3,100 o gofrestriadau a 570 o ymgeiswyr hyfwr ar gyfer 50 o rolau

Wythnos Diogelwch Trydanol

Yn Nhachwedd, fe wnaeth Wythnos Diogelwch Trydanol Cymru ysgogi 2,500 o bleidleisiau ar-lein ar bynciau diogelwch a diogelwch yn y cartref drwy law #ByddwchChiYnEdifahau yn Rhagfyr, gan gynhyrchu 55,000 o sesiynau gwyllo'r fideo.



- Gwelodd ymgyrchoedd a oedd yn defnyddio cysyniadau fideo a chyfryngau cymdeithasol arloesol fel #PaidRhoiTanwyddaryTân a oedd yn ymwneud â gwaredu gwastraff yn y cartref ostyngiad o 22% mewn tanau gwastraff o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda dros 500 yn llai o danau mewn ardaloedd a oedd yn boethfannau. Derbyniodd yr ymgyrch gyfoeth o sylw yn y wasg gan y BBC, ITV, y Daily Mail ac ymateb ysgubol ar y cyfryngau cymdeithasol gan y cyhoedd â'n partneriaid
- Cyflwynwyd teclynau cyfathrebu arloesol i'r Gwasanaeth, megis sgwrs llif byw siaradwr gwadd y Rhuban Gwyn i orsafoedd tân a'r defnydd o Slido ar gyfer rhyngweithiadau byw â staff ar ein diwrnod hyfforddiant i Reolwyr Canol
- Datblygwyd fforwm ar-lein, "Shout", i alluogi cyfathrebiadau effeithiol â staff
- Darparwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu i roi cipolwg o ofynion corfforol y rôl i ymgeiswyr sy'n ddarpar diffoddwyr tân Llawn Amser
- Parhawyd â'n gwaith ymgysylltu â chymunedau yn Ne Cymru ar hyd y flwyddyn, mynychwyd amryw o ddigwyddiadau a leolwyd mewn ysgolion a'r gymuned ac arddangoswyd y gyrfaedd a oedd ar gael mewn ffeiriau swyddi a digwyddiadau cyflogi.

- Darparwyd y rhaglen ymyrraeth troseddwyd ifanc yng Ngharchar y Parc ac ymgwymerwyd â gwerthusiad ac adolygiad rhwng staff Carchar y Parc a GTADC
- Cefnogwyd goroeswyr trais domestig drwy law'r Prosiect Momentwm; cynhaliwyd tri chwr yn 2019-2020

Penwythnos 999

Glaniodd miloedd o bobl ym Mae Caerdydd ar benwythnos yr 21^{ain} a'r 22 o Fedi wrth i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu De Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gynnal y Penwythnos 999 ar y cyd cyntaf yn Ne Cymru.



Yn dathlu hanes hir a balch o gyd-gadw pobl De Cymru'n ddiogel, roedd y digwyddiad rhad ac am ddim hwn yn cyd-daro â dathliadau 50fed penblwydd Heddlu De Cymru, a gwelwyd rhaglen lawn o weithgareddau hwyl i'r teulu yn y safle ger y dŵr.

Cynhwysodd y digwyddiad amrediad o arddangosfeydd ac arddangosiadau gan bob un o'r tri gwasanaeth, gan gynnwys y Cadetiaid Tân, y Tîm Ymateb mewn Ardaloedd Peryglus, cŵn yr Heddlu, ffug-weithrediad digwyddiad traffig ar y ffyrdd tri-gwasanaeth a pherfformiad byw gan Gwmni Dawns UDOIT. Lliffodd y torfeydd i Roald Dahl Plass i gael cip agos ar wahanol agweddau'r gwasanaethau brys wrth eu gwaith.

Gorsaf 20

Am chwe mis, fe wnaethom rhoi mynediad ecsclusif i gamerâu ITV i griwiau yng Ngorsaf y Gwasanaethau Brys Y Barri, yn darparu golwg fewnol unigryw i wylwyr i rôl diffoddwr tân cyfoes.

Denodd pob pennod, a ddarllledwyd am 8yh ar dri Ddydd Llun yn olynol yng Ngorffennaf 2019, gynulleidfa o dros 130,000 o bobl, a dangoswyd ein criwiau'n ymateb i nifer o digwyddiadau'n ymestyn o brif ddigwyddiadau i achub preswylwr oedrannus oedd yn gaeth mewn liff.

Gallaf ddweud yn
onest y teimlais yn emosiynol
falch i fod yn Brif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru.

Prif Swyddog Tân Huw Jakeway QFSM
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru



Cam Blaenoriaeth 4

Sicrhau ein bod yn denu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu ein holl gymunedau ac sy'n gallu darparu gwasanaethau effeithiol heddiw ac i'r dyfodol

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Meddu ar ffocws clir ar iechyd a ffitrwydd ein staff drwy law mecanweithiau cefnogi priodol
- Cwblhau'r Cyfleuster Hyfforddiant Tân Gwirioneddol yng Nghanolfan Hyfforddi Porth Caerdydd a sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion hyfforddi'r Gwasanaeth
- Sicrhau bydd ein gweithgareddau hyfforddi'n cwrdd ag anghenion gweithredol y Gwasanaeth
- Datblygu cwrs Gofal Brys ar Unwaith/Trawma Tân i gwrdd â gofynion gweithredol

Beth wnaethon ni

- Cynigwyd cyngor iechyd a ffitrwydd a oedd yn cynnwys darparu rhaglenni ymarfer personol a chyngor bwyta'n iach i'r staff cyfan
- Darparwyd amryw o ddsbarthiadau ymarfer gan gynnwys yoga, boxercise a ffitrwydd i ddechreuwyd i'r holl staff
- Gweithiodd timau â phob adran i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd unigol ar iechyd, lles a phresenoldeb yn y gweithle
- Symudwyd ein huned iechyd galwedigaethol mewnol i safle newydd gyda gwell cyfleusterau a chyfarpar yn Hydref 2019
- Datblygwyd, darparwyd a chyflawnwyd sicrhau ansawdd ein cwrs trawma newydd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Darparwyd rhaglen o hyfforddiant cyllid, ariannu a chaffael ar hyd y flwyddyn ariannol i staff
- Datblygwyd cynlluniau i werthuso rolau swydd corfforaethol i sicrhau cydraddoldeb cyflogau
- Cychwynnwyd ein Prosiect Iechyd Meddwl yn Nhachwedd 2019 sy'n anelu at wella cefnogaeth iechyd meddwl i'n gweithwyr i atal, amddiffyn a hyrwyddo ymwybyddiaeth o lesiant ac iechyd meddwl

Gostyngwyd Cyfanswm Absenoldebau gan

8%

ar y flwyddyn flaenorol

Gostyngwyd salwch hirdymor gan

16%

Gostyngwyd nifer yr anafiadau ar ddyletswydd gan

31%

Cynhaliwyd

2,175

apwyntiadau meddygol, gan gynnwys profion meddygol cyffredin ac apwyntiadau eraill fel ffisiotherapi, cwnsela ac ymgynghoriadau dros y ffôn.

Cyfleuster Hyfforddiant Tân Gwirioneddol



Yn ystod 2019, gwelwyd cwblhau Cyfleuster Hyfforddiant Tân Gwirioneddol newydd y Gwasanaeth a adeiladwyd ar dir cyferbyn â safle presennol Porth Caerdydd. Dim ond y trydydd cyfleuster o'i fath yn y Deyrnas Unedig yw hon, ac mae Gwasanaethau eraill yn chwilio i ddilyn ein hesiampl. Mae'r cyfleuster blaengar hwn yn cynnwys tŷ tân tri llawr sy'n caniatáu i ddiffoddwyr tân gyflawni hyfforddiant offer anadlu (OA) mewn ystod o senarios tân heriol.

Mae'r adeilad yn corffori systemau dŵr pwysedd uchel ac isel ill dau a gyflenwyd gan ddau danc dŵr pedair mil litr a bwerwyd gan system pwmpio trydanol, sy'n dileu'r angen am ymrwymiad peiriant tân traddodiadol. Mae hwn yn lleihau ymhellach yr effaith amgylcheddol o ran sŵn ac allyriadau. Mae

systemau ychwanegol yn cynnwys galluogrwydd mwg 'oer' artiffisial a osodwyd ym mhob ardal o'r cyfleuster.



Cam Blaenoriaeth 5

Gostwng effaith ein Gwasanaethau ar yr amgylchedd i sicrhau cynaliadwydd i'r dyfodol

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Adolygu'r effaith y caiff ein gweithgareddau ar yr amgylchedd a gweithio i ddileu, lleihau a gostwng hyn
- Datblygu camau i leihau'r effaith y caiff gweithredu ein cerbydau ar yr amgylchedd

Beth wnaethon ni

- Gosod sychwyr dwylo hynod effeithlon newydd yn ein pencadlys a dileu tywelion papur o'n hystafelloedd ymolchi, yn lleihau cost a gwaredu gwastraff
- Gosodwyd thermostatau rhaglenadwy yn ein Gorsafoedd Tân i reoli tymheredd amredol yr awyr wrth ddefnyddio system rheoli tymheredd rhagosodedig sy'n lleihau treuliant nwy ac allyriadau carbon
- Gosodwyd system sychu cit newydd yng Ngorsfoedd Tân Cwmbrân, Pont-y-clun a Phorthcawl. Mae'r dechnoleg a ddefnyddiwyd yn sychu cit o'r tu fewn allan ac yn dileu gwlybanaeth o'r awyr. Bydd y system yn cau'n awtomatig pan fydd y gwlybanaeth i gyd wedi diflannu o'r ystafell
- Prynwyd 50 o gadeiriau swyddfa a ailwampiiwyd o'r un amodlen â'n cadeiriau swyddfa cyfredol, gan osgoi danfon at safleoedd tirlenwi a gwneud arbediad ariannol
- Parhawyd i symleiddio rheolyddion ar ein System Rheoli Busnes (SRhB) ym mhob un o'n safleoedd i leihau ymhellach treuliant nwy a thrydan
- Pennwyd beth fydd angen i ni gefnogi'n cerbydau trydanol, e.e. mannau gwefru trydanol er mwyn amnewid ceir cydgyfrannol disel â cherbydau trydanol newydd
- Rhoddwyd cynlluniau mewn lle i amnewid 22 o faniau disel â faniau trydanol a phrynwyd tri
- Gostyngwyd y defnydd o bapur wrth hyrwyddo'r defnydd o fynediad electronig ar gyfer agendâu, cyfarfodydd ac adroddiadau
- Ail-ddefnyddiwyd celfi nad sydd bellach yn cael eu defnyddio yn yr orsaf/mewn adrannau gan leihau'r angen i brynu eitemau newydd ac osgoi danfon hen gelfi at safleoedd tirlenwi
- Cychwynnwyd prosiect i gydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru i'r dyfodol mewn perthynas â rheoli gwastraff.
- Gostyngwyd ein teithio busnes yn sylweddol drwy ddefnydd ehangach o gynhadleddau fideo a gweithio o bell

Cerbydau Hybrid hunan-wefru

Rydym wedi cyflwyno chwe cherbyd hybrid hunan-wefru i'n fflyd weithredol er mwyn gostwng ein hól troed carbon wrth leihau allyriadau carbon.



Gostwng Carbon a Chynaliadwyedd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n adnabod pa mor bwysig ydyw e i ni sicrhau ein bod wedi ymroi at leihau allyriadau carbon a'r effaith a gawn ar yr amgylchedd ym mhopeth y gwnawn. O fewn ein Cynllun Lleihau Carbon 2020-2023 rydym wedi gosod cynllun gweithredu heriol i'n hunain i'n helpu ni gyflawni'r amcanion hyn.

Lleihau'r Gofyn: lleihau'r maint o nwyddau neu wasanaethau a dreuliwyd drwy adnabod gwastraff diangen o ganlyniad i or-stocio, storio gwael a sicrhau rheolaeth barhaus a herio'r angen ar gyfer y pryniant yn y man cyntaf

Lleihau Allyriadau: olrhain cynnyrch sydd â pherfformiad ynni ehangach neu chwilio am gynnyrch amgen mwy cynaliadwy i gwrdd ein hanghenion

Ail-ddefnyddio: adnabod cynnyrch a chydannau y gellir eu defnyddio eto at yr un diben y'i cynlluniwyd a pharatoi i'w hail-ddefnyddio naill ai gennym ni neu gan y cyflenwr

Ailgylchu: ailgylchu cynnyrch ar ddiwedd eu bywyd i osgoi danfon gwastraff at safleoedd tirlenwi a gofyn am wybodaeth gan gyflenwyr i adnabod posibiliadau ailgylchu

Gosodwyd manau ailgylchu dillad ar draws y Gwasanaeth a ddanfonnir at Elusen y Diffoddwyr Tân yn y Pencadlys. Cynorthwyodd rhoddion bwyd 'Prosiect Cymunedol Helping Hand' i ddarparu banciau bwyd ac elusennau lleol dros gyfnod yr Ŵyl.



Cam Blaenoriaeth 6

Sicrhau yr ydym yn defnyddio technoleg i alluogi darparu gwasanaethau gwell ac effeithlon

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Sicrhau fod ein systemau TGCh yn effeithlon, yn effeithiol ac wedi'u gwarchod rhag ymosodiadau seibir
- Datblygu cynlluniau i'w defnyddio mewn achos o fethiant systemau TGCh
- Sicrhau bydd dillad a chyfarpar diffoddwyr tân o'r ansawdd uchaf
- Defnyddio ein System Rheoli Gwybodaeth Busnes (SRhGB) fel hwb data canolog

Beth wnaethon ni

- Diogelu ein rhwydwaith a'n gweinyddion wrth uwchraddio waliau tân, ac uwchraddiadau gwrth feirws, diogelwch rhag faleiswedd a meddalwedd
- Storio ein data wrth gefn i gynorthwyo adfer pe bai achos o golli data neu ymosodiad meddalwedd wystlo
- Cynhaliwyd Dadansoddiad Effaith Busnes (DEB) ar draws y Gwasanaeth fel y byddwn yn barod i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod unrhyw amhariad
- Cwblhawyd hunan - asesiad er mwyn ennill achrediad mewn Safonau Cyber Essentials Plus/Llywodraethiant IASME. Bydd y wobwr hon yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a staff ein bod yn cymryd rhagofalon digonol i amddiffyn cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd data a systemau
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi rhithiol ynghylch gweithio'n hyblyg, diogelu data a diogelwch i'n staff
- Cynhyrchwyd cyfarwyddyd i staff sy'n gweithio o gartref ar yr angen i fod yn wiliadwrs i risg uwch o beryglon seibir
- Sefydlwyd grŵp Cymru Gyfan i wella a deall rhannu data'n well ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub
- Ar sail adborth gan ddefnyddwyr, diweddarwyd y System Cofnodi Digwyddiadau (SCD) i wella ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a gasglwyd
- Diweddarwyd y system rheoli cytundebau newydd i sicrhau ei fod yn cwrdd â'r holl ofynion
- Uwchraddiwyd y feddalwedd Terfynellau Data Symudol
- Parhawyd i adolygu ein defnydd o'n harf modelu risg, Cwmpasiad Argyfwng y Gwasanaeth Tân (CAGT) a chynnal ymchwil y farchnad i fodelau eraill, yn ogystal ag ymchwilio beth mae Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yn defnyddio

Cyflwynwyd OGP newydd

Prynwyd cit diffodd tân strwythurol newydd i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymreig. Mae'r cit newydd yn chwyldroadol ei gynllun a'i berfformiad gan y bydd yn lleihau straen gwres ac yn caniatáu gwell diogelwch i ddiffoddwyr tân yn ystod y blynnyddoedd i ddod.

“ Mae o'r pwys mwyaf i ni ein bod yn darparu'r safonau uchaf posib o amddiffyniad i'n diffoddwyr tân. ”

Datganiad ar y cyd, tri Phrif Swyddog Tân Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru

Profwyd OGP yn hynod drwyadl gan ein diffoddwyr tân, law yn llaw ag OGP gan wneuthurwyr cystadleuol a sgoriodd yr OGP Diffodd Tân Strwythurol hwn y marciau uchaf â'n diffoddwyr tân ac o fewn gofynion caeth ehangach proses gaffael Cymru Gyfan.



Bydd cit tân blaengar yn diogelu bob un o'r 3 Gwasanaeth Tân Cymreig hyd at 2030. Mewn treialon cyn prynu, ymgwymerwyd â phrawf trafylncu gan fflamau cyflawn o'r cit i sicrhau ei fod yn cynnig yr amddiffyniad mwyafsymiol i'r sawl sy'n ei wisgo. Bydd yn darparu lefelau uchel o gysur, anadlwyedd a rhyddid symudiad tra'n sicrhau diogelwch thermol rhagorol.

Mae gan y cynllun nodweddion allweddol fydd yn dyrchafu profiad y gwisgwr, yn gwella'r llif aer mewnol ac yn helpu cadw'r gwisgwr yn glaeaf. Hefyd, mae'r cit yn ysgafn, yn gwrthsefyll dwr ac yn sychu'n gyflym.

System Gwybodaeth Rheoli Busnes (SGRhB)

Crëwyd dangosfyrddau perfformiad ar ein System Gwybodaeth Rheoli Busnes (SGRhB) megis dangosfwrdd Diogelwch yn y Cartref ar gyfer rheoli a monitro pob Archwiliad Diogelwch rhag Tân yn y Cartref.



Cam Blaenoriaeth 7

Gweithio â Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a'u partneriaid i gefnogi ein holl gymunedau lleol

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Parhau i leihau risg wrth weithio'n effeithiol â'n Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ym mhob un o'n cymunedau lleol
- Cyflwyno, datblygu a monitro strategaeth ar gyfer gostwng galwadau ffug a dderbyniwyd drwy law'r systemau larwm tân awtomatig

Beth wnaethon ni

- Parhau i fynychu ein grwpiau BGC yn eu tro i sicrhau y cefnogir ein cyfrifoldeb statudol sy'n cael ei gyfleu o dan DLI CD
- Gweithiwyd ar yr Isadeiledd Gwyrdd (Prosiect Coed) - prosiect a gynlluniwyd yn wreiddiol i fapio'n hisadeiledd gwyrdd i adnabod safleoedd posib ar gyfer plannu coed ar dir a berchnogir gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fydd yn cynhyrchu amryfal fuddion i fio-amrywiaeth, ansawdd awyr a llygredd sŵn, yn lleihau llifogydd a'n darparu coetiroedd cymunedol a gwagleoedd gwyrdd ar gyfer hamdden
- Gweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru, y Byrddau Iechyd a Valleys to Coast Housing (V2C) i gymhwyso arf mapio i'n perchnogaeth tir ein hunain i adnabod safleoedd ychwanegol ar gyfer plannu coed
- Parhawyd â'n hymrwymiad ar Grŵp Cyflenwi Prentisiaid BGC Caerffili. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol ac wedi datblygu cynllun i yrru'r gwaith yn ei flaen dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r cynllun yn cysylltu â'n tudalen gwefan ar brentisiaeth ein hun sy'n annog ymgeiswyr i ymuno â'n cynllun prentisiaeth ni mewn amryw o adrannau
- Recriwtiwyd naw prentis ar draws amrywiol adrannau
- Darparwyd Prosiect Momentwm, yn cynnal tri chwrs i gefnogi menywod a oroesodd drais domestig. Mae hwn yn cefnogi gwasanaeth Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) BGC Caerdydd, a gychwynnwyd yn 2018-2019. Ymestynnwyd y gwasanaeth i alluogi cymorth i fwy o blant a phobl ifanc, ac mae gwaith ar droed i ddatblygu gwasanaeth i gefnogi goroeswyr gwrywaidd
- Cefnogwyd nodau BGC i ostwng troseddu a gwella cyfleoedd bywyd i'r grŵp o oed 18-25. Cynhaliwyd amryw o brosiectau sy'n cefnogi'r rhai sydd o fewn y grŵp oed hynny sydd mewn perygl rhag troseddu, e.e. ein prosiectau Troseddau a Chanlyniadau a Phrosiect Ffenics
- Darparwyd sesiynau sy'n gyfeillgar i ddementia i nifer o'n staff ar draws 2019. Mae hyn yn cefnogi amcan BGC Caerdydd 'Mae Caerdydd yn le rhagorol i heneiddio'
- Arweiniwyd o fewn BGC Bro Morgannwg ar yr Amcan "caniatáu pobl i ymrwymo, cyfranogi yn eu cymunedau lleol a llunio gwasanaethau lleol". Sefydlwyd grwp Ymgysylltu fydd yn mabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru. Bu'r grŵp yn cynnal cyfarfodydd a thrafodaethau i ddatblygu'r camau a amlinellwyd o fewn y Cynllun Lles ac mae fframwaith yn cael ei ddatblygu. Yn adeiladu ar waith y BGC â Chomisiynydd Plant Cymru, bydd y grŵp yn canolbwyntio ar sut mae partneriaid yn cynnwys ac ymgysylltu plant a phobl ifanc yn eu gwaith

- Parhawyd i herio galwadau a danfon peiriannau tân yn ddeallus i gefnogi'r ymgyrch i ostwng presenoldeb i alwadau ffug a chysylltu ag eiddo, yn dilyn danfoniadau at arwyddion tân diangen, i drafod rheolaeth ragweithiol safleoedd i gydymffurfio â dyletswyddau personau cyfrifol
- Parhawyd i weithio â Heddlu De Cymru i ddatblygu partneriaethau rhwng staff iechyd meddwl, gweithwyr cymdeithasol a staff ambiwlans o fewn y Cyd-Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus
- Parhawyd i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol allanol, gan gynnwys byrddau iechyd ac awdurdodau addysg lleol â'r nod o ostwng galwadau ffug a dderbyniwyd gan larymau tân awtomatig (LTA)
- Newidiwyd ein hymateb i ddigwyddiadau LTA. Gyda'r dydd, danfonnir dim ond un peiriant tân ar gyflymdra arferol i fwyafrif o'r digwyddiadau LTA, heblaw am y digwyddiadau hynny mewn safleoedd risg uwch, er enghraifft, ysbytai, safleoedd fflatiau tŵr, llety gwarchod
- Gweithredwyd gweithdrefnau newydd i fynd i'r afael ag eiddo sydd â swm annerbyniol o alwadau ffug ac ymgysylltwyd â "personau cyfrifol" a rhanddeiliaid allweddol arall i godi ymwybyddiaeth o pam a sut i leihau galwadau ffug yn eu heiddo
- Gwnaethpwyd y cyhoedd yn ymwybodol o'r costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â galwadau ffug, yn ogystal â darparu gwybodaeth ar sut i'w hatal rhag digwydd. Cyraeddodd ymgyrch radio Cymru Gyfan ddegau o filoedd o wrandawyr a darparwyd cynnwys sy'n dal sylw drwy law'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy law gwefan Newyddion Cymraeg y: BBC ANIMATION <http://bit.ly/AnimeiddiadLarymauFfug>

Ymarferion GTFF Rhyngasiantaeth

Ers 2017, bu Gorsafoedd Tân Merthyr Tudful a Thonypandy'n cynnal ymarferion GTff aml-gerbyd Rhyngasiantaeth mewn cydweithrediad ag Adran Addysg Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (AABIPCT) ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwylans Cymru (YGAC).

Eglurodd arbenigwyr a oedd yn gyfrifol am hyfforddi meddygon ifanc bod dinoethiad i senario aml-asiantaeth cymhleth yn darparu profiad ymarferol o sut mae GTADC ac YGAC yn defnyddio'r dull tîm i ddod â digwyddiadau cymhleth i ben yn llwyddiannus. Gwelwyd hwn yn hanfodol wrth helpu paratoi meddygon pan fyddant yn gweithio o'r newydd, neu wrth fod yn gyfrifol am adran frys brysur neu amgylchedd tebyg.



Diwrnod Rhuban Gwyn



Tachwedd y 25ain yw Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn erbyn Menywod, sydd hefyd yn cael ei adnabod yn Ddiwrnod Rhuban Gwyn.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n dal i fod yn hynod falch i fod yn sefydliad a achredwyd â'r Rhuban Gwyn gyda'n Prif Swyddog Tân Huw Jakeway QFSM, MSc, FIFireE yn llysgennad balch i'r ymgyrch ledled y DG.

Nododd digwyddiadau eleni rhywbeth newydd i'n Tîm Cyfryngau a Chyfathrebiadau a oedd, ynghyd â'n Hadran TGCh, yn gallu ffrydio'r cyflwyniad yn fyw i'r holl staff ar draws ein Gwasanaeth am y tro cyntaf, gan ddarparu cyfle iddynt fewngofnodi ar Gyfrifiaduron Personol neu ddyfeisiau symudol a gwylio o bell. Gwyliwyd y llif byw mwy na 150 o weithiau.



Gostyngwyd Digwyddiadau LTA mewn
Byrddau Iechyd o

680 | 604 (-11%)

Gostyngwyd Digwyddiadau LTA mewn
cartrefi Preswyl o

494 | 418 (-15%)



Gostyngwyd presenoldeb
Peiriannau tân mewn Ysbytai o

971 | 860 (-11%)

Gostyngwyd presenoldeb Peiriannau
tân mewn cartrefi Preswyl o

736 | 622 (-15%)

“

Mae Rheoli Tân yn helpu'n rhagweithiol i leihau
achosion o fynychiadau Larymau Tân Awtomatig.

Darperir gwybodaeth ar bob galwad Arwydd Tân Diangen a
dderbyniwyd gan ein tîm Diogelwch Tân i Fusnesau o fewn 24 awr.
Mae Cyd-Reoli Tân yn galw pob safle LTA i wirio os oes tân cyn danfon
peiriant tân. Mae'r Tîm Atal a Diogelu yn cysylltu ag eiddo sydd wedi
anghofio hysbysu'u cwmni larymau tân eu bod yn profi ac yn olrhain
manylion cyswllt ar gyfer y safle, felly gellir cysylltu cyn danfon.

”

Rheolwr Gorsaf Natalie Pearce-Martin - Ymateb Brys

Cyllid a Chaffael

CYFRIFEG

	Mawrth 2019	Mawrth 2020
Costau Gweithwyr	£54.9 miliwn	£59.6 miliwn
Treuliau Cysylltiedig ag Adeiladau	£5.0 miliwn	£5.0 miliwn
Treuliau Hyfforddi	£1.5 miliwn	£1.4 miliwn
Cyflenwadau a Gwasanaethau	£3.8 miliwn	£4.2 miliwn
Treuliau Cysylltiedig â Thrafnidiaeth	£1.3 miliwn	£1.4 miliwn
Gwasanaethau dan Gontract	£0.9 miliwn	£0.8 miliwn
Costau Cyfalaf / Prydlesu	£4.6 miliwn	£4.6 miliwn
Incwm	- £1.6 miliwn	-£5.1 miliwn
Cyfanswm	£70.4 miliwn	£71.9 miliwn

2020-2021

GRANTIAU REFENIW
£6.2 miliwn

GRANTIAU MENTER
CYLLID PREIFAT
£1.1 miliwn

RHAGLEN GYFALAF
£6.6 miliwn

£1,264,000 Cerbydau
£1,719,000 TGCh
£3,655,000 Eiddo

CAFFAEL

Bydd GTA De Cymru, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, yn defnyddio Cyflenwyr Cymru ar gyfer nwyddau a gwasanaeth cyffredin ac ailadroddus a bydd yn gweithio gyda Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraethau Lleol Cymru i nodi meysydd gwariant addas ar gyfer twf gweithgynhyrchu posibl. Roedd £7,363,575 o gyfanswm ein gwariant o £23,884,446 gyda Chyflenwyr Cymru.

Ein Perfformiad Archwilio

Fe'n harchwilir yn rheolaidd gan ein harchwilwyr mewnol - 'TIAA' a'n harchwilwyr allanol - Archwilio Cymru. Dyma grynodeb o ganfyddiadau eu harchwiliadau o fewn y flwyddyn ariannol 2019-2020.

“ Mae 'TIAA' yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, fod gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu rhesymol ac effeithiol mewn lle. ”
TIAA

Mae Archwilydd Cyffredinol Archwilio Cymru hefyd yn darparu sicrwydd ar faterion ariannol ac fe gadarnhaodd hynny fel y nodwyd yn ei adroddiad dyddiedig yr 31ain o Orffennaf 2019 fod:

“ Yn cyflwyno golwg gwir a theg o safle a thrafodion ariannol yr Awdurdod a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. ”
Archwilio Cymru

Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol safbwynt archwilio anghymwys ar y datganiadau cyfrifo yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.

“ Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol: Awdurdod Tân ac Achub De Cymru; a Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân. Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol: yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân fel y mae ar yr 31ain o Fawrth 2019 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben; fe'u paratowyd yn gywir yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019. ”
Archwilio Cymru

Beth rydyn ni'n cynllunio gwneud yn 2021-2022

Mae ein gweledigaeth hirdymor o "Wneud De Cymru'n Ddiogelach wrth Leihau Risg" yn parhau.

I gyflawni hyn, rydym wedi gosod wyth Thema Strategol. Bydd y themâu hyn a'u hamcanion perthnasol yn caniatáu i ni barhau i ddarparu ymateb effeithiol i'n cymunedau yn eu hawr anghennus a darparu gwasanaeth sydd wedi'i alinio ag egwyddor DLI CD;

“ Dylai pob Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu
mewn modd sy'n chwilio i sicrhau bydd gofynion y
presennol yn cael eu cwrdd heb gyfaddawdu gallu
cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy. ”

Rydym yn cynnig Amcanion a ddatblygwyd wrth wrando ar adborth o'n hymgyngghoriad cynnar gydag amrywiaeth o bobl ar hyd De Cymru ac wrth gymryd i ystyriaeth ein hymrwymiad i adeiladu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynaliadwyedd i bopeth y gwnawn – o greu gweithle sydd wir yn rhoi gwerth i amrywiaeth gweithwyr i ddarparu gwasanaethau sy'n ganolog i'r bobl i'n holl gymunedau yn Ne Cymru.

Gellir canfod ein Cynllun Strategol 2020-2030 yma ac fe'i cefnogir gan gynlluniau allweddol eraill isod:

[**Ein Cynllun Strategol 2020-2030**](#)

[**Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2025**](#)


[**Ein Cynllun Lleihau Carbon 2020-2030**](#)

Fe wnaethom gynnal ymarferiad i ymgynghori'n gynnar ac archwilio beth sy'n bwysig am ein Gwasanaeth gydag

Sut wnaethom ddatblygu ein cynllun ar gyfer 2021-2022

amryw o bobl yn Ne Cymru, gan gynnwys staff, y cyhoedd a phartneriaid. Cynhaliwyd yr arolwg am dair wythnos ac fe gaeodd ar y 14^{eg} o Awst 2020. Derbyniwyd cyfanswm o 101 o ymatebion gan gyfranogwyr a gynrychiolir yn y siart isod.

Dangosodd yr ymatebion gefnogaeth sylweddol i bob un o'n wyth thema strategol gyda phob un yn sgorio 4 neu



uwch, lle bydd 5 yn dynodi fod y thema'n cael ei hystyried yn "hynod bwysig".

Hefyd, amlygodd yr arolwg feysydd y dylwn ganolbwyntio arnynt y flwyddyn nesaf i wella ein Gwasanaeth. Y meysydd hyn yw:

- 1. Diogelwch Cymunedol, addysgu ac ymgysylltu**
- 2. Lles Staff ac ymgysylltu**
- 3. Partneriaethau**
- 4. Hyfforddiant**

Ystyriodd ein huwch dîm rheoli yr holl wybodaeth a gaffaelwyd o'r holiadur gan edrych hefyd tuag at flaenoriaethau, risgiau a

ffyrdd o weithio i'r dyfodol i ddatblygu ein hamcanion arfaethedig ar gyfer 2021-2022.

Blaenoriaeth allweddol ar gyfer blwyddyn nesaf fydd gweithredu'r Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cychwyn ar y 29^{ain} o Fedi 2020.

O ganlyniad i bandemig Covid-19, ail-flaenoriaethwyd y ddyletswydd hon ac nid yw'r union ddyddiad gweithredu eto'n hysbys. Pan ddaw i rym, bydd y ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar ein Gwasanaeth, wrth gymryd unrhyw benderfyniadau strategol, i dalu ystyriaeth lawn i'r angen i leihau'r anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais gymdeithasol-economaidd. Bwriedir i'r ddeddfwriaeth gyfannu unrhyw ddyletswyddau statudol eraill fel Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a DLI CD ac rydym yn cynllunio ein Gwasanaeth mewn parodrwydd ar gyfer y ddyletswydd hon, a ddisgwyllir yn gynnar yn 2021.

Ein Themâu Strategol

Thema Strategol	Yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol		Yn cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus		
Eich Cadw chi'n Ddiogel	 Cymru gydnherth	 Cymru o gymunedau cydlynus	 Cymunedau Diogelach	 Cychwyn Gorau	 Lleihau Anghydraddoldebau Cymdeithasol ac Economaidd
Ymateb i'ch Argyfwng	 Cymru gydnherth	 Cymru iachach	 Cymunedau Diogelach	 Gweithio Gyda'n Gilydd	
Defnyddio Technoleg yn Dda	 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	 Cymru o gymunedau cydlynus	 Gweithio Gyda'n Gilydd		
Gweithio gyda'n Partneriaid	 Cymru o gymunedau cydlynus		 Gweithio Gyda'n Gilydd		
Ymgysylltu a Chyfathrebu	 Cymru sy'n fwy cyfartal	 Cymru o gymunedau cydlynus	 Gweithio Gyda'n Gilydd	 Dod yn Rhan	
Gwerthfawrogi Ein Pobl	 Cymru sy'n fwy cyfartal	 Cymru iachach	 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	 Cyflogadwyedd, Sgiliau a Chyfleoedd	 Ffordd o fyw iach
Diogelu Ein Hamgylchfyd	 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang		 Diogelu'r Amgylchedd		
Parhau i Weithio'n Effeithion	 Cymru lewyrchus	 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	 Lleihau Anghydraddoldebau Cymdeithasol ac Economaidd	 Gweithio Gyda'n Gilydd	 Dinasoedd sy'n Gweithio

Eich Cadw chi'n Ddiogel



Cymru
Gydnerth



Cymru o
Gymunedau Cydlynus

Mae hyn yn golygu...

Ein Gweledigaeth **“Gwneud De Cymru’n ddiogelach drwy leihau risg”**. Gwnawn hyn drwy ein gwasanaethau addysgu, atal a diogelu. Bydd ein hamcanion o ran y thema hon yn canolbwyntio ar atal ac addysgu, gan ein bod yn credu y gall addysgu atal tanau ac argyfyngau eraill.

Ein Hamcanion...

- **Lleihau effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau**
- **Lleihau nifer y tanau yn y cartref a deall yr ymddygiadau a'r hyn sy'n eu hachosi**
- **Lleihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd**
- **Lleihau nifer y tanau bwriadol**
- **Gwella diogelwch mewn dŵr ac o'i gwmpas**
- **Gwella diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau**

Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Mae cadw De Cymru yn ddiogel gyda chysylltiadau effeithiol yn hollbwysig i ni. Mae lleihau achosion o dân yn ein galluogi i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol, i gefnogi'r economi wledig a lles ein cymunedau i ddiogelu cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Dyma rai o'n cynlluniau...

- Defnyddio technoleg ar gyfer ymgysylltu cymunedol a darparu gwasanaethau fel cyngor diogelwch yn y cartref ac ymweliadau rhithiol ag ysgolion drwy law ein cyfleusterau ar-lein
- Targedu gweithgareddau diogelwch tân a diogelwch ar y ffyrdd i gwrdd ag anghenion pobl wahanol yn ein cymunedau sydd o dan risg ehangach
- Creu agwedd at risg "a ganolwyd fwy at y person" i dargedu gweithgareddau a ddarperir ar y cyd gan ein hadrannau Diogelwch Tân i Fusnesau (DTF) a Diogelwch Tân Cymunedol (DTC)
- Arolygu safleoedd a busnesau sy'n gweithredu'n wahanol o ganlyniad i bandemig COVID-19
- Addysgu ein cymunedau i fod yn 'Ddiogel o Gwmpas Dŵr' yn ystod llifogydd a gweithgareddau hamdden sy'n ymwneud â dŵr

Ymateb i'ch Argyfwng



Cymru
Gydnerth



Cymru
Iachach

Mae hyn yn golygu...

Rydym bob amser yn gwneud yn siwr ein bod ni'n darparu ymateb effeithlon ac effeithiol i'n cymunedau yn ôl yr angen. Golyga hyn bod angen personél sydd wedi'u hyfforddi'n dda arnom yn ogystal â'r offer diweddaraf posib i sicrhau na fydd diogelwch ein cymunedau byth yn cael ei beryglu. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein diffoddwyr tân er mwyn sicrhau y gallant ymateb i'r ystod eang o ddigwyddiadau rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Ein Hamcanion...

- **Ymateb yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch**
- **Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein diffoddwyr tân System Ddyletswydd Ar Alwad (SDdAA) ar gael**
- **Hyfforddi ein diffoddwyr tân i ymateb i risgiau cyfredol a rhai yn y dyfodol o fewn ein cymunedau**

Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Mae ein Cynllun Strategol yn nodi ein hymateb ynghyd â'r hyn y byddwn yn ei wneud yn barhaus i wella ein gweithrediadau. Yn ogystal â hyn mae angen i ni fod yn barod i sicrhau bod y trefniadau priodol ar waith i ymateb i argyfyngau, wrth gynnal ein darpariaeth gwasanaethau craidd.

Dyma rai o'n cynlluniau...

- Adolygu ein Strategaeth Achub o Ddŵr a phrynu tri tender achub gyda chyfleusterau achub o ddŵr ychwanegol
- Gwella dargadwedd ein Diffoddwyr Tân System Ddyletswydd Ar Alwad
- Profi ein cynlluniau i weithredu'n effeithiol ac ymateb i bob argyfwng yn ystod adegau argyfyngus pe bai ein hadnoddau'n cael eu lleihau/heffeithio dros dro e.e. pandemig COVID-19
- Cyflwyno terfynellau data symudol newydd i gefnogi Asesiadau Risg Safleoedd Penodol (SRSP) yn dilyn y prosiect Fflatiau Tŵr
- Sicrhau bydd ein strategaeth cynllunio gweithlu yn hydwyth i wneud yn siwr yr eithafir ein cynhwysedd a'n galluogrwydd gweithredol
- Sicrhau bydd gennym yr adnoddau cywir mewn lle i ymateb i argyfyngau wrth iddynt godi
- Adolygu a datblygu ein rhaglen hyfforddi sgiliau gweithredol yn unol â gofynion y Gwasanaeth i'r dyfodol

Defnyddio Technoleg yn Dda



Cymru sy'n gyfrifol ar
lefel fyd-eang

Mae hyn yn golygu...

Defnyddio technoleg i wella ein prosesau a'n systemau fel eu bod yn barod i'r dyfodol, gan ein bod ni'n cydnabod bod hyn yn rhan hanfodol o welliant parhaus. Gan gynnwys technegau ac offer diffodd tân a'n systemau cymorth cefn swyddfa, rydym yn bwriadu eithafu datblygiadau technolegol i gefnogi a gwella'r gwasanaethau a ddarperir.

Ein Hamcanion...

- **Defnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf priodol i wella ein gwasanaethau**
- **Adolygu safon a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar draws y Gwasanaeth**

Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Bydd ein datblygiad technolegol yn gyfraniad cadarnhaol tuag at les cyffredinol ein staff a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Credwn hefyd y bydd defnydd effeithiol o TGCh ac offer yn sicrhau y gall adnoddau gweithredol ymateb orau i ddigwyddiadau. Defnyddiwn Ddatganiad Polisi a Gweithdrefnau Caffael Cymru 2015 wrth brynu gwasanaethau a chyflenwadau, i sicrhau prosesau teg a thryloyw i gefnogi busnesau lleol a chyfrannu at ffyniant yr economi leol.

Dyma rai o'n cynlluniau...

- Cynyddu ein defnydd o gyfarpar amlgyfrwng a fideogynadledda mewn Gorsafoedd ar gyfer hyfforddi staff, ymgysylltu a gwasanaethau cymunedol megis ymweliadau rhithiol ag ysgolion
- Uwchraddio ein system Rheoli Fflyd
- Prynu system rheoli cleifion mewn cydweithrediad â Gwasanaethau Brys eraill
- Dechrau rhaglen amnewid dyfeisiau dros gyfnod o dair blynedd, e.e. cyfrifiaduron bwrdd gwaith, gliniaduron a thabledi
- Defnyddio ein system AD i gipio a thracio hyfforddiant sgiliau meddal â staff
- Uwchraddio ein meddalwedd swyddfa i wella effeithlonrwydd a chydweithredu â'n partneriaid a phartneriaethau eraill

Gweithio gyda'n Partneriaid



Cymru o
Gymunedau Cydlynus

Mae hyn yn golygu...

Mae gennym hanes hir a balch o gydweithio â'n partneriaid i gyflawni gwelliannau ac effeithlonrwydd mesuradwy ac wrth gwrdd â gofynion y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannu at flaenoriaethau lleol a helpu i wella lles cymunedol.

Ein Hamcanion...

- **Gweithio gyda'n Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) i gefnogi'n cymunedau**
- **Gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni ein gwasanaethau pan fo eu hangen**
- **Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol**

Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Rydym yn cydnabod manteision gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill er mwyn darparu gwasanaethau gwerth gorau i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ar y cyd. Mae rhannu gwybodaeth a sgiliau wrth wraidd dyfodol ein gwasanaeth. Mae trefniadau arloesol gyda'n partneriaid lleol a gwasanaethau tân ac achub eraill eisoes ar waith, ond rydym yn anelu at ehangu'r cysylltiadau hyn a hefyd nodi cyfleoedd eraill i weithio ar y cyd. Bydd gweithio mewn partneriaeth nid yn unig yn ein galluogi i rannu'r hyn a wnawn a sut y cyflwynir hynny, ond gallwn adnabod cyfleoedd ychwanegol gan eraill ar gyfer gwella, gan sicrhau gwasanaeth mwy effeithlon a chost effeithiol i'n cymunedau.

Dyma rai o'n cynlluniau...

- Datblygu cyfleusterau gwasanaethau brys fwy cydlynus mewn Gorsafoedd
- Adolygu a datblygu ein Partneriaethau Diogelwch Tân Cymunedol
- Sicrhau fod ein Huned Trosedd Tân yn effeithiol 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos a'i bod yn cynorthwyo ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol â risgiau megis trais domestig
- Gwella rhannu data gyda'n partneriaid ar draws gwasanaethau cyhoeddus i'n helpu ni i ddarparu'r cymorth priodol i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed
- Datblygu ein galluogrwydd arwain wrth weithio a hyfforddi ein harweinwyr ar y cyd â gwasanaethau brys eraill

Ymgysylltu a Chyfathrebu



Cymru sy'n
Fwy Cyfartal



Cymru â Diwylliant Bywiog
lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Mae hyn yn golygu...

Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n staff, ein rhanddeiliaid, ein cymunedau a'n partneriaid drwy feithrin agwedd gadarnhaol o ran cyfathrebu. Mae cyfathrebu yn brif flaenoriaeth mewn sicrhau bod ein staff, ein rhanddeiliaid, ein cymunedau a'n partneriaid yn ymwybodol o'r gwaith rydym yn ei wneud, yr heriau rydym yn eu hwynebu a gallant fod yn rhan o lunio ein gwasanaethau yn y dyfodol. Credwn y gallwn gyflwyno ein negeseuon allweddol yn effeithiol drwy sicrhau ffocws parhaus ar addysgu, ymgysylltu a chyfathrebu.

Ein Hamcanion...

- **Cyflawni argymhellion yr adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl**
- **Cynnwys ein cymunedau a gwneud yn siwr bod ganddynt lais yn yr hyn a wnawn**
- **Helpu i gadw'n cymunedau'n ddiogel trwy addysgu a mynychu digwyddiadau yn y gymuned**

Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Gall gweithio'n cydlynol fel rhan o gymuned â chysylltiadau da ddarparu gwelliant ehangach na gweithio ar ben eich hun, gan sicrhau felly fwy o gyfleoedd i gadw preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr De Cymru yn ddiogelach. Bydd hyn yn fanteisiol i'n cymunedau yn ogystal â chyfrannu'n sylweddol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ill dau.

Dyma rai o'n cynlluniau...

- Darparu mwy o gyfleoedd lleol i aelodau'n cymunedau i gyrchu gwybodaeth diogelwch ar adeg ac mewn lle sy'n gweddu iddynt
- Defnyddio TGCh megis sgriniau mawr mewn Gorsafoedd ar gyfer ymgysylltu â staff ac i alluogi cyfathrebu dwy ffordd gwell
- Ystyried barn a safbwyntiau ein staff a'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ar newidiadau i'n gwasanaethau, offer a chyfleusterau

Gwerthfawrogi ein Pobl



Cymru sy'n
Fwy Cyfartal



Cymru
Iachach



Cymru â Diwylliant
Bywiog lle mae'r
Gymraeg yn Ffynnu

Mae hyn yn golygu...

Dylai ein gweithlu gynrychioli'r cymunedau a wasanaethir gennym, drwy fod yn amrywiol a gwerthfawrogi pawb yn gyfartal, a dylid darparu cyfleoedd datblygu yn ogystal â chyfleoedd proffesiynol i staff. Y flwyddyn nesaf, rydym yn cynnig y dylai un amcan ganolbwyntio ar ein staff. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu gweithlu amrywiol a chydadd ei werth sy'n gwasanaethu ein cymunedau. Mae datblygiad y Cynllun Gwasanaeth Tân Cynhwysol yn nodi ein gwaith ar y bwch tâl rhwng y rhywiau a'r cynhwysiant, y diwylliant a'r ymddygiad sy'n ofynnol i wneud yn siwr bod gwelliannau'n darparu canlyniadau gwirioneddol i'r staff cyfredol a rhai'r dyfodol yn ogystal â defnyddwyr ein gwasanaethau.

Bydd datblygiadau pellach â'n Rhwydwaith Ymgysylltu â Staff, er enghraifft sefydlu fforwm ar-lein, yn ein helpu ni i ddeall ein staff a chaniatáu iddynt gyfrannu i'r hyn a wnawn yn fwy effeithiol.

Ein Hamcanion...

- **Denu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn cynrychioli ein cymunedau**
- **Datblygu ein pobl drwy adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu**
- **Cefnogi ein pobl fel y byddant yn teimlo'n dda, yn iach ac yn hapus yn y gweithle**

Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd diwylliant ein Gwasanaeth. Byddwn yn darparu llwybrau clir i hyrwyddo cynnydd ac amgylchedd gwaith iach sy'n ystyriol o ddiogelwch a lles ein staff, gan weithredu arferion gwaith sy'n cynnal ffordd iach o fyw a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ill dau.

Dyma rai o'n cynlluniau...

- Datblygu gwagleoedd lles ym mhob un o'n gweithleoedd fel 'mannau tawel' i staff
- Gweithredu egwyddorion ac arferion Strategaeth Iechyd Meddwl newydd y Gwasanaeth
- Datblygu proses werthuso newydd a gefnogir gan dechnoleg briodol
- Ymestyn y rhaglen datblygu arweinyddiaeth i ddrychafu galluoogrwydd ar hyd y sefydliad a chwrdd â'r safonau aosodwyd gan y CCPT
- Cynyddu'r ffordd orau o ddefnyddio gweithio'n hyblyg a gweithio o gartref i staff
- Penderfynu'r ffyrdd gorau o ymgysylltu â'n cymunedau amrywiol i gael mynediad at y dalent o fewn y grwpiau hyn gogyfer ein recriwtio i'r dyfodol

Diogelu ein Hamgylchfyd



Cymru sy'n Gyfrifol
ar Lefel Fyd-eang

Mae hyn yn golygu...

Rydym yn gwybod bod ein gweithgareddau yn effeithio ar yr amgylchedd lleol a'r amgylchedd byd-eang ill dau ac rydym wedi ymrwymo i leihau unrhyw effeithiau anffafriol. Eleni, rydym wedi datblygu Cynllun Lleihau Carbon ac y flwyddyn nesaf, rydym yn cynnig amcan sy'n canolbwyntio ar leihau ein heffaith amgylcheddol. Rydym wedi ymrwymo i groesawu egni adnewyddadwy i gefnogi cynaliadwyedd a nodau amgylcheddol DLI CD.

Ein Hamcanion...

- **Lleihau ein defnydd o ddeunyddiau un defnydd**
- **Archwilio i ddefnyddio cerbydau trydan**
- **Lleihau maint yr ynni rydym yn ei ddefnyddio â'n hôl troed carbon ill dau**
- **Ystyried effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchfyd**

Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Rydym yn credu mewn buddsoddi hirdymor mewn systemau sy'n lleihau gwastraff a byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd i wneud GTADC yn arweinydd mewn cynaliadwyedd. Bydd yr holl benderfyniadau a'r cynlluniau a wnawn yn ystyried egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys y broses o wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru fel y'i corfforwyd o fewn DLI CD.

Dyma rai o'n cynlluniau...

- Defnyddio systemau rheoli dogfennau i leihau'r papur a ddefnyddir gennym bob dydd
- Gosod manau gwefru i gerbydau trydan ar draws y Gwasanaeth
- Recriwtio Swyddog Cynaliadwyedd i gefnogi cwrdd â thargedau ein Cynllun Lleihau Carbon
- Adolygu ein defnydd o ddeunyddiau hyrwyddo ar gyfer ein hymgyrchoedd addysgu ac ymwybyddiaeth i leihau'u defnydd, os nad ydynt yn hanfodol, a sicrhau eu bod yn gallu cael eu hail-ddefnyddio a'u/neu'u hail-gylchu

Parhau i Weithio'n Effeithiol



Cymru
Lewyrchus



Cymru â Diwylliant Bywiog lle
mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Mae hyn yn golygu...

Ein nod bob amser yw dangos gwerth am arian yn ogystal â darparu ein gwasanaethau am y gost isaf bosibl i'r safon uchaf posibl. Wrth ystyried faint i'w wario, ein blaenoriaeth barhaus yw'r angen i wella'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau ac yn lleihau risg yng nghymunedau De Cymru. Byddwn yn gweithio ar gynllunio tymor canolig a thymor hir, a hynny yn erbyn her ariannol barhaus a phroffiliau risg newidiol ein cymunedau. Byddwn yn cefnogi Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau arwain a chraffu yn effeithiol.

Ein Hamcanion...

- **Bod yn glir ac yn atebol i'r cyhoedd**
- **Eithafu gwerth am arian wrth wella'n gwasanaeth**
- **Datblygu ffyrdd newydd o weithio**

Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Rydym yn cydnabod mai ein staff yw ein hased mwyaf gwerthfawr. Fodd bynnag, er mwyn i'n staff fod yn effeithiol, mae angen y cyfleusterau a'r adnoddau gorau posib arnynt. Rhaid bod ein penderfyniadau yn ymwneud â gwariant ar asedau corfforol yn effeithlon ac yn effeithiol i gefnogi ac ymateb i'n darpariaeth gwasanaethau. Bydd ein Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad yn craffu'r penderfyniadau hyn a'n nod yw sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian ar gyfer y gwasanaeth a ddarparwn i gyhoedd De Cymru.

Dyma rai o'n cynlluniau...

- Adolygu darpariaeth hyfforddiant i adlewyrchu'r heriau a osodwyd gan bandemig COVID-19
- Creu agwedd at risg sydd wedi'i chanoli'n fwy at y person, lle cyd-gynhyrchir gweithgareddau gan ein hadrannau Diogelwch Tân mewn Adeiladau (DTA) a Diogelwch Tân Cymunedol (DTC)
- Annog ein staff i ddefnyddio Fforwm Shout i awgrymu'u syniadau o sut gall ein Gwasanaeth weithredu'n well
- Adolygu ein Telerau ac Amodau i staff yn unol â'r defnydd cynyddol o drefniadau gweithio hyblyg a gweithio o gartref

Yr Iaith Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i wasanaethu'n effeithiol y rhai hynny sy'n dewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i Safonau'r Gymraeg 2015, y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno hysbysiad cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Cyhoeddir yr Hysbysiad Cydymffurfio hwn ar ein gwefan a rhoddir manylion am ba wasanaethau y gall dinasyddion ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Rydym yn ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr er mwyn gwella safon gyffredinol y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg.

Lleisiwch eich barn

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd ystyrlon o wella ein gwasanaethau a chyflwyno gwybodaeth. Er mwyn gwneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau a chyflwyno gwybodaeth i chi.

Yn enwedig, croesawn eich sylwadau a'ch cwestiynau/neu'ch cwestiynau am ein hamcanion arfaethedig [Lleisiwch Eich Barn 2020](#)

Fersiynau amgen

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn iaith neu fformat amgen megis hawdd ei ddeall, print mawr, Braille neu ar ffurf awdio, cysylltwch â ni.



Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX



Gwefan

www.decymru-tan.gov.uk



Galwch ni

01443 232000



@TanDeCymru



@TanDeCymru



@sw_fire_and_rescue

Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Byddwn yn ymateb yn gydradd yn y ddwy iaith ac yn ateb yn eich iaith ddewisol heb oedi.

Gwirfoddolwyr

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn chwilio i recriwtio unigolion o gefndiroedd amrywiol gyda sgiliau a galluoedd gwahanol, sy'n cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Disgwylir i wirfoddolwyr weithio gyda'n timau arbenigol i gyflwyno negeseuon allweddol y Gwasanaeth. Mae'r profiad hwn yn rhoi boddhad, gan roi'r cyfle i gwrdd â phobl newydd ac ymgymryd â heriau newydd. Bydd eich gwybodaeth am y gymuned leol yn gwella ac yn ategu rôl y Gwasanaeth wrth ddiwallu anghenion ein cymunedau. Cewch helpu gwneud De Cymru'n ddiogelwch i bawb.

Y cyfan rydym yn ei ofyn yw eich bod chi ar gael am leiafswm o wyth awr y mis, ac yn barod i helpu am leiafswm o chwe mis. Bydd y rhan fwyaf o gyfleoedd gwirfoddoli cychwynnol yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith arferol, o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, gan gynnwys rhai gyda'r nos ac ar benwythnosau. Bydd hyn yn newid wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen ac wrth i fwy o gyfleoedd godi.

I gael gwybod mwy am rolau gwirfoddoli, cliciwch ar y cyfleoedd rôl isod:

www.decymru-tan.gov.uk/rol-diffoddwr-tan/cynllun-gwirfoddolwyr



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

01443 232000
www.decymru-tan.gov.uk